

Siarad am ardoll ymwelwyr yng Nghymru

Fersiwn Gymunedol ac Ieuenctid



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Mae Cymru yn le gwych i ymweld.

Mae pobl yn dod yma o bob rhan o'r DU a'r byd.

Mae ymwelwyr yn mwynhau ein:



Yn 2019:

- Ymwelodd dros **90 miliwn** o bobl â Chymru
- Gwariodd ymwelwyr dros **£5.9 biliwn** yma
- Arhosodd **10 miliwn** o ymwelwyr dros nos
- Mae gan **149,600** o bobl swyddi ym maes twristiaeth

Mae'r ymwelwyr hyn yn ychwanegu at ein heconomi yng Nghymru. Maen nhw'n cefnogi ein busnesau, swyddi ac yn dod ag arian i'n hardaloedd. Ond maen nhw hefyd yn rhoi pwysau ar wasanaethau lleol, seilwaith a'n hamgylchedd.

i Mae **seilwaith** yn golygu'r pethau corfforol sefydlog mae pobl yn eu defnyddio — adeiladau, ffyrdd, lonydd beicio, toiledau, a llawer mwy.

Syniad newydd

Rydym ni'n ystyried gadael i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr.

i **Treth yw ardoll.** Byddai'n golygu y byddai'n rhaid i ymwelwyr sy'n aros mewn ardal wneud taliad bach.


Byddai gan awdurdodau lleol y rhyddid i ddefnyddio'r ardoll ai peidio.

Mae hwn yn dweud mwy wrthydd chi am yr ardoll ymwelwyr. Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi.



Sut y gallai hyn edrych

Mae nifer o benderfyniadau i'w gwneud. Ond, gall edrych fel hyn.



Pam fod hyn yn bwysig

Rydym ni am i Gymru fod yn lle y gall cenedlaethau'r dyfodol ei fwynhau. Rydym ni am gynyddu'r pethau cadarnhaol mae twristiaeth yn eu cyflwyno a lleihau'r pethau negyddol. Gelwir hyn yn dwristiaeth gynaliadwy.

Rydym ni'n credu y gall ardoll ymwelwyr helpu gyda hyn.

Ein nod

Mae pob ardal leol yn wahanol. Mae nifer yr ymwelwyr yn wahanol. Mae awdurdodau lleol yn adnabod eu hardal a lle mae angen gwario'r arian i gadw'r ardal yn braf i ymwelwyr ddychwelyd iddi ac i drigolion fyw ynddi bob dydd.

Rydym am i'r ardoll ymwelwyr:

- helpu awdurdodau lleol i ofalu am eu gwasanaethau a'u seilwaith
- sicrhau bod ymwelwyr yn rhannu rhai o'r costau fel ei fod yn decach i bobl leol
- gefnogi twristiaeth gynaliadwy a'n hamgylchedd.





Trafod...

pwrpas yr ardoll ymwelwyr a sut y gallai weithio

Mae gan nifer o wledydd ardoll ymwelwyr.

Mae rhai gwledydd yn ei ddefnyddio i reoli faint o bobl sydd yn ymweld â'u hardaloedd. Nid dyma fyddai pwrpas yr ardoll ymwelwyr hon!

Ond mae'r rhan fwyaf o wledydd yn defnyddio'r arian o'r ardoll i dalu costau gwasanaethau lleol a seilwaith a ddefnyddir gan ymwelwyr. Rydym ni am i'r ardoll wneud hyn yma.



Cwestiwn 1

Rydym ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu codi ardoll os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny a defnyddio'r arian yn eu hardal leol.

Ydych chi'n cytuno? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr
Pam?



Cwestiwn 2

Rydyn ni'n meddwl y dylai ymwelwyr sy'n aros dros nos orfod talu'r ardoll.

Ydych chi'n cytuno? Ydw Nac ydw
Ddim yn siŵr
Pam?





Trafod...

rheolau a fframwaith yr ardoll ymwelwyr

Mae angen rheolau ar yr ardoll ymwelwyr er mwyn iddo weithio'n iawn. Bydd camau (a fframwaith) y bydd angen i bawb eu dilyn, yn cynnwys:

- cost yr ardoll
- pwy fydd yn gorfod ei dalu ac na fydd yn gorfod ei dalu
- pwy fydd yn casglu'r arian
- sut i sicrhau fod pawb yn dilyn y rheolau, a beth yw'r goblygiadau os nad ydynt yn dilyn y rheolau.

Mae 3 ffordd o wneud hyn:

- 1. Mae pob awdurdod lleol yn gosod eu rheolau eu hunain.**
- 2. Fframwaith Cymru gyfan sy'n rhoi rhywfaint o ryddid i awdurdodau lleol, fel penderfynu ar y gyfradd dreth ar gyfer eu hardal.**
- 3. Fframwaith Cymru gyfan y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei dilyn.**

Rydyn ni'n meddwl mai 3 yw'r syniad gorau oherwydd:

- mae'n decach gan fod pawb yn dilyn yr un rheolau
- mae'n haws trefnu a'i gymhwyso
- mae'n haws i ymwelwyr ei deall.



Cwestiwn 3

Rydyn ni'n meddwl mai 3 yw'r syniad gorau.

Ydych chi'n cytuno? Ydw Nac ydw

Ddim yn siŵr

Pam?





Trafod...

cynllunio sut mae'r ardoll yn gweithio

Rydyn ni angen penderfynu sut mae'r ardoll yn gweithio.

Credwn y byddai'n well pe bai darparwyr llety yn codi'r ardoll ar ymwelwyr. Gallent ei gasglu pan fydd ymwelwyr yn talu (naill ai pan fyddant yn archebu neu wrth adael).

i **Y darparwyr llety** yw'r busnesau neu'r perchnogion sy'n rhedeg gwestai, meysydd carafanau, meysydd gwersylla, hosteli, sefydliadau gwely a brecwast ac eraill.

Byddai angen i'r darparwr llety gadw cofnodion a gwneud yn siŵr eu bod yn trosglwyddo'r arian y maent yn ei gasglu i awdurdodau lleol.



Cwestiwn 4

Credwn y dylai darparwyr llety gasglu'r ardoll.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw** **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**
Pam?



Trafod...

y bobl y byddai hwn yn effeithio arnynt

Rydym am i'r ardoll fod yn deg.

- Mae **64%** o bobl yn dod yma ar eu gwyliau
- Mae **25%** yn ymweld â theulu a ffrindiau — (ni fyddai'r ardoll yn berthnasol i bobl sy'n aros gyda theulu a ffrindiau)
- Mae **8%** yn dod ar gyfer busnes
- Mae **3%** yn dod am reswm arall.

Ffigurau 2018

Maen nhw i gyd yn defnyddio gwasanaethau a seilwaith lleol.



Cwestiwn 5

Rydym ni'n credo y dylai fod yn rhaid i bob ymwelydd sy'n aros mewn llety dalu'r ardoll ymwelwyr.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw** **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**
Pam?





Trafod...

y bobl na fyddai hyn yn eu cynnwys

Mae yna rai pobl nad ydym yn meddwl y dylai'r ardoll ymwelwyr fod yn berthnasol iddyn nhw.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Pobl sy'n byw ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.** Ond, byddai'n berthnasol i'r rhai sydd yn dod ar wyliau.
- **Pobl sydd angen llety brys sy'n cael ei drefnu gan awdurdod lleol.** Mae hyn yn cynnwys pobl ddigartref a phobl sy'n dianc rhag camdriniaeth neu drais.
- **Ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn llety sy'n cael ei drefnu gan awdurdod lleol.**
- **Pobl sy'n aros mewn llety sy'n cael ei redeg gan sefydliadau elusennol.** Mae hyn yn cynnwys seibiannau gorffwys i ofalwyr neu fannau diogel i bobl sy'n dianc rhag cam-drin.

Lleoedd eraill lle mae pobl yn aros

Ni fyddai'r ardoll ymwelwyr yn berthnasol i bobl sy'n aros yng nghartrefi teulu neu ffrindiau, neu mewn llety myfyrwyr.



Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno gyda hyn?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr

Pam?



Trafod... materion eraill

Mae gan bobl anghenion gwahanol ac maen nhw'n defnyddio llety am wahanol resymau. Mae angen i ni benderfynu pryd y dylai'r ardoll ymwelwyr fod yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Pobl sydd â'u hunig opsiwn yw hosteli oherwydd mai nhw yw'r rhataf, fel arall byddent yn **ddigartref**.
- Pobl sy'n aros dros nos oherwydd bod angen **triniaeth feddygol** arnynt neu eu bod yn cefnogi rhywun.
- **Plant a phobl ifanc.**
- **Pobl anabl.**

Ni waeth beth fyddwn ni'n ei benderfynu, rydym ni am i bob awdurdod lleol ddefnyddio'r un rheolau ynghylch pwy fydd yn gorfod a phwy na fydd yn gorfod talu'r ardoll.

? Cwestiwn 7

Beth ydych chi'n feddwl?

Trafod... llety

Mae llawer o fathau o lety. Mae rhai ar agor drwy'r flwyddyn, a rhai eraill sydd yn cau am y gaeaf. Mae rhai yn cael eu rheoli gan gwmnïau mawr, a rhai busnesau bach yn cael eu rheoli gan un person. Er enghraifft mae darparwyr llety yn rheoli:

- Gwestai a Sefydliadau Gwely a Brecwast
- Meysydd carafanau a gwersylloedd
- Hosteli a thai bynciau
- Llety hunanarlwyo gan gynnwys Airbnb.

Mae rhai pobl yn meddwl y dylem ni roi rhyddid i ddarparwyr llety newydd beidio â chodi'r ardoll. Nid ydym yn credu y byddai hynny'n deg ar eraill yn yr ardal honno.

? Cwestiwn 8

Rydym ni'n credu y dylai pob darparwr llety godi ardoll ymwelwyr.

Ydych chi'n cytuno? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Pam?





Trafod...

sut i gymhwyso'r ardoll

Mae ffyrdd gwahanol o wneud hyn. Gallwn gael:

Cyfradd sefydlog (£) fesul ystafell neu lety, y noson

Gallai'r ardoll fod yn berthnasol i'r ystafell neu'r llety, nid nifer y bobl sy'n aros yno. Felly, byddai rhywun sy'n aros mewn ystafell westy yn talu'r un faint y noson â theulu o bedwar yn aros mewn un ystafell westy.

Cyfradd sefydlog (£) fesul person, y noson

Mae hyn yn hawdd i'w wneud. Mae'n berthnasol i bob person sydd yn aros noson. Felly, byddai teulu o bedwar yn talu pedair gwaith cymaint ag un unigolyn yn aros yn yr un math o lety.

Canran o bris llety

Byddai cwpl sy'n aros mewn gwesty rhad yn talu llai na chwpl sy'n aros mewn gwesty moethus.

Cyfuniad o'r rhain

Mae rhai gwledydd yn codi'r ardoll fesul person y noson ynghyd â chanran o gost y llety.



Cwestiwn 9

Beth ydych chi'n meddwl yw'r opsiwn gorau?

Cyfradd sefydlog (£) fesul ystafell neu lety, y noson

Cyfradd sefydlog (£) fesul person, y noson

Canran o bris llety

Cyfuniad o'r rhain.

Ni waeth beth fyddwn ni'n ei bednerfynu, rydym ni'n credo y dylai fod yr un peth ledled Cymru.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw** **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**
Pam?



Trafod...

faint ddylai'r ardoll fod

Rydym ni am wneud yn siŵr ein bod yn gosod yr ardoll ymwelwyr ar y gyfradd gywir (pris).

Nid ydym am:

- atal pobl rhag dod i Gymru neu leihau nifer y nosweithiau y maent yn aros oherwydd cost ychwanegol
- roi pwysau ychwanegol ar bobl ar incwm isel.

Mae rhai gwledydd yn codi tâl am y 7 noson gyntaf yn unig. Os ydyn nhw'n aros am fwy na 7 noson mewn un ymweliad ni fydd yr ardoll yn parhau. Does dim rhaid iddynt dalu mwy.

Dywedodd pobl sy'n gweithio ym maes twristiaeth wrthym y dylem ni adael i awdurdodau lleol osod y pris. Ond rydym ni'n credu gallai hyn fod yn ddryslyd i ymwelwyr ac yn annheg i ddarparwyr llety os yw'r rheolau'n wahanol mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru.



Cwestiwn 10

Rydym ni'n credu y dylid gosod yr ardoll yr un pris i ymwelwyr ar draws Cymru gyfan.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw** **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**

Ar ôl sawl noson yn olynol a ddylai'r ardoll ddod i ben?

- 5 noson
- 7 noson
- 14 noson
- Nifer arall, nodwch os gwelwch yn dda

Pam?



Trafod...

defnyddio arian a godwyd o'r ardoll

Gallai pob awdurdod lleol godi swm gwahanol o arian o'r ardoll. Mae gan rai lawer o ymwelwyr, felly gallai ardoll ymwelwyr o £1 godi miliynau. Nid oes gan bawb gynifer o ymwelwyr.

Fe wnaethom ofyn i fusnesau twristiaeth ar gyfer beth roedden nhw'n meddwl y dylid defnyddio'r arian. Dywedodd y rhan fwyaf y dylai gael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau a seilwaith lleol. Dywedodd rhai y dylid ei ddefnyddio:

- i farchnata a hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal
- i dalu am systemau trafnidiaeth gyhoeddus ecogyfeillgar.

Dywedodd rhai y dylai'r arian a godir gael ei warchod a bod â rheolau sy'n dweud mai dim ond ar bethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth y gellir ei ddefnyddio. Mae rhai rhesymau cadarnhaol am hynny, ond gall rheolau ychwanegol atal yr arian rhag gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Felly, rydym ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu defnyddio'r arian ar bethau sydd eu hangen ar eu hardal a phethau a fydd yn rhoi'r canlyniadau gorau.



Cwestiwn 11

Rydym ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol wario'r arian ar beth bynnag sydd orau yn eu barn nhw.

Ydych chi'n cytuno? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Pam?

Sut ydych chi'n meddwl y dylid gwario'r arian?





Trafod...

cydweithio ac adrodd yn ôl

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym ni am weithio gydag awdurdodau lleol, darparwyr llety a'n cymunedau. Rydym ni am i bobl weld y gwahaniaeth mae'r ardoll yn ei wneud yn eu hardal a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch sut mae'r arian yn cael ei wario.

Er mwyn gwneud hyn mae angen i awdurdodau lleol ddangos sut maen nhw'n gwario'r arian. Gallant naill ai gynnwys hyn yn eu hadroddiadau cyllid blynyddol neu ysgrifennu adroddiad ar wahân am yr ardoll.

Rydym ni'n credo y gallai adroddiad ar wahân ei gwneud yn haws i gymunedau ac ymwelwyr weld y gwahaniaeth mae'r ardoll yn ei wneud.



Cwestiwn 12

Sut gallai cymunedau wneud penderfyniadau am wariant?

A ddylai fod adroddiad ar wahân bob blwyddyn ar gyfer yr ardoll ymwelwyr?

Ydw **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**

Pam?



Trafod...

amseru

Mae newid yn cymryd amser ac rydym ni am wneud hyn yn iawn. Nid oes gennym ni amserlen benodol eto ar gyfer cychwyn yr ardoll.

Pan fydd yr holl benderfyniadau am yr ardoll wedi cael eu gwneud, byddai gan awdurdodau lleol y pŵer i'w gymhwyso ai peidio yn eu hardal. Mae'n bwysig eu bod nhw'n gadael amser i gynnwys y gymuned wrth wneud penderfyniadau.



Cwestiwn 13

Rydym ni'n meddwl y dylai awdurdodau lleol benderfynu a ddylid defnyddio'r ardoll ac y dylent gynnwys y gymuned yn eu penderfyniad.

Ydych chi'n cytuno? **Ydw** **Nac ydw** **Ddim yn siŵr**

Pam?



Yn olaf

 **Cwestiwn 14**
Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig. Pa effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) ydych chi'n meddwl y byddai'r ardoll ymwelwyr newydd yn ei chael ar y Gymraeg?

 **Cwestiwn 15**
A oes unrhyw beth arall rydych chi'n credo mae angen i ni ei wybod am yr ardoll ymwelwyr?

Diolch am ddarllen

Gallwch ddarllen yr ymgynghoriad mwy yma:

llyw.cymru/ardoll-ymwelwyr

Anfonwch eich ymatebion i:

 Tîm Ardoll Ymwelwyr
Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

 YmgynghoriadArdollYmwelwyr@llyw.cymru

 Erbyn 13 Rhagfyr 2022

